# JENKINS, JOSEPH (1886 - 1962), gweinidog (EF) ac awdur

**Enw:** Joseph Jenkins
**Dyddiad geni:** 1886
**Dyddiad marw:** 1962
**Priod:** Mary Catherine Jenkins (née Williams)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (EF) ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Gwilym Richard Tilsley

Ganwyd 4 Tachwedd 1886 yn T  Newydd, Pontrhydygroes, Ceredigion, ei dad yn gefnder i'r gweinidog Joseph Jenkins. Addysgwyd ef yn ysgol Ysbyty Ystwyth a dechreuodd weithio yn 13 oed yn un o weithfeydd mwyn plwm yr ardal. Cafodd gyfnod pellach o addysg yn ysgol y Gwynfryn, Rhydaman, cyn mynd yn was cylchdaith i Landeilo. Ar ôl ei dderbyn i'r weinidogaeth treuliodd flwyddyn yn Aberaeron a chyfnod yng ngholeg Handsworth, Birmingham. Gwasanaethodd yn y cylchdeithiau canlynol: Llanbedr Pont Steffan, Llandeilo, Machynlleth (dau gyfnod), Tredegar, Aberystwyth, Biwmares, Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog. Aeth yn uwchrif yn 1959. Rhwng 1926 ac 1952 cyhoeddodd 14 o lyfrau storïau i blant, rhai fel *Robin y pysgotwr*, *Siencyn Tanrallt*, *Straeon athro*, *Bechgyn y bryniau*, etc. a fu'n boblogaidd iawn. Cyhoeddodd bump o ddramâu a bu mynd mawr ar rai ohonynt fel *Dal y lleidr* a *Dan gwmwl*. Cyhoeddodd werslyfr *Hanes yr Efengylau* yn 1931. Golygodd *Y Winllan* 1948-53 a bu'n Llywydd y Gymanfa 1951. Yr oedd yn aelod anrhydeddus o Orsedd y Beirdd a derbyniodd wobr goffa Syr O.M. Edwards yn 1947 am ei gyfraniad i lenyddiaeth. Cyfrannodd lawer i'r cylchgronau. Pr Mary Catherine Williams, Dafen, a bu iddynt fab a merch. Bu farw 21 Ebrill 1962.

## Awdur

**Gwilym Richard Tilsley**, (1911 - 1997)

## Ffynonellau


*The Minutes of the Annual Conference Methodist Church*, 1962, 213

Mairwen a Gwynn Jones, *Dewiniaid Difyr* (Llandysul 1983)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733724


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu